Cwmnïau'n cael eu rhybuddio i daflu deunydd ymgyrch drwy'r post gan asiantaethau 'Iechyd a Diogelwch' ffug - Ionawr 2005

Anogir cwmnïau a sefydliadau eraill i anwybyddu gwybodaeth a anfonir gan ddau fusnes sy'n honni eu bod yn rheoleiddio deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Mae'r HSE wedi derbyn cwynion gan gwmnïau ledled y wlad sydd wedi cael ceisiadau am daliadau er mwyn cydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch.

Mae un cwmni, yng Ngorllewin Swydd Efrog, sy'n galw ei hun yn 'Health and Safety Registration Enforcement Division' (HSRED), wedi ysgrifennu at gwmnïau ledled Prydain Fawr gan ofyn am rhwng £199 a £249 i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch, mae hyn yn dilyn llu o lythyrau tebyg, sy'n defnyddio'r un enw a anfonwyd i gwmnïau yng ngwanwyn 2004 a oedd yn wreiddiol yn rhoi cyfeiriad Rochdale ond sydd bellach yn anfon llythyrau gan roi cyfeiriad Bradford. Roedd cwmni arall a oedd yn galw ei hun yn 'Health and Safety Enforcement Agency' (HSEA) yn gofyn am £125 am becyn cydymffurfio iechyd a diogelwch hefyd yng ngwanwyn 2004 ac sydd hefyd wedi bod yn anfon llythyrau eto yn ddiweddar.

Gall unrhyw un sy'n derbyn gohebiaeth gan unrhyw un o'r cwmnïau hyn ei hanwybyddu; nid oes angen cyfreithiol i unrhyw un brynu deunydd darllen neu wasanaethau gan y cwmnïau hyn.

Nid oes dim un o'r cwmnïau hyn yn gysylltiedig â'r HSE. Dylai sefydliadau fod yn wyliadwrus iawn os bydd y cwmnïau hyn yn cysylltu â hwy, neu os bydd unrhyw gwmni yn 'cynnig' gwasanaethau tebyg. Mae'r ddau gwmni yn defnyddio geiriau sy'n awgrymu eu bod yn gyrff gorfodi swyddogol, ond nid yw hynny'n wir. Nid yw'r HSE byth yn anfon llythyrau i gwmnïau yn gofyn am daliad ymlaen llaw am wasanaethau nad yw wedi eu darparu. Mae'r cwmnïau hyn yn gofyn am symiau sylweddol o arian, gan honni y byddant yn anfon gwybodaeth, y mae'r HSE yn darparu llawer ohoni am ddim. Mae Pecyn Cychwynnol Iechyd a Diogelwch yr HSE ei hun o'r enw: Health and Safety Advice and Guidance for New and Small Businesses, ISBN 07176 2738, ar gael i unrhyw fusnes gan HSE Books (www.hsebooks.com) am £30.00. Mae'r pecyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cyngor iechyd a diogelwch sylfaenol sydd ei angen ar fusnesau i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith ac i ddiogelu eu gweithwyr. Mae hefyd yn cynnwys copïau o Lyfr Damweiniau'r HSE a Phoster Cyfraith Iechyd a Diogelwch, y mae'n rhaid ei arddangos ar safle busnes yn ôl y gyfraith. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan yr HSE fel a ganlyn:

- **Pecyn cychwynnol**

Mae'r HSE yn cyd-gysylltu â swyddfeydd safonau masnachu a'r heddlu, sy'n ymchwilio i'r cwmnïau. Dylai unrhyw un sy'n derbyn gohebiaeth gan unrhyw un o'r cwmnïau hyn roi gwybod i **Linell Wybodaeth yr HSE ar 0845 345 0055**, neu swyddfa leol yr HSE.